Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cyfreithiwr – Ymgyfreitha a Chymorth Cyffredinol** |
| **Lleoliad:** | **Blaenau Gwent** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **Cyfeirnod/Rhif Swydd:** | **BG00026** |
| **Cyflog:** | **Gradd 9 (£42,403 - £46,464 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |

**Crynodeb Swydd**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu gwasanaeth cymorth proffesiynol i'r Cyngor gyda phwyslais neilltuol ar ymgyfreitha, yn cynnwys eiriolaeth mewn Llysoedd Ynadon a Sifil, ac yn rhoi cymorth cyfreithiol i Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ac Addysg ynghyd â chyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion fel sydd angen ar draws holl Gyfarwyddiaethau a Phwyllgorau'r Cyngor.

**Hysbyseb Llawn**

Mae cyfle cyffrous ar gael i ymuno â'r Tîm Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'r swydd yn gyfrifol am reoli llwyth achos amrywiol o faterion cynhennus ac yn cynnwys eiriolaeth mewn llysoedd sifil a throseddol. Byddwch hefyd yn rhoi cyngor a chymorth cyfreithiol ar amrywiaeth o faterion ar draws holl Gyfarwyddiaethau a Phwyllgorau y Cyngor. Byddai'r swydd hon o ddiddordeb i rywun sy'n hyderus ac a hunan-gymhelliant, sy'n dangos sgiliau rhagorol wrth ddatrys problemau ac sy'n mwynhau llwyth gwaith amrywiol yn gweithio mewn amgylchedd ystwyth sy'n bennaf yn seiliedig yn y cartref gan fynychu llysoedd a'r swyddfa pan fo angen. Mae cyflogeion y Cyngor yn mwynhau amrywiaeth o fuddion yn cynnwys gweithio hyblyg, gwyliau hael a hawl i bensiwn a chynllun buddiant staff.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus gymwysterau llawn Cyfreithiwr neu Fargyfreithiwr gyda thystysgrif ymarfer gyfredol. Mae profiad mewn ymgyfreitha ac eiriolaeth yn hanfodol, nid o reidrwydd mewn llywodraeth leol.

Mae angen trwydded yrru lawn a mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd neu os hoffech drafod yn anffurfiol, anfonwch e-bost i Legal@blaenau-gwent.gov.uk gan adael eich enw a'ch rhif ffôn os gwelwch yn dda.

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Dyddiad Cau:** **06.06.2024 - Midnight**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **TBC**